Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 18.04.2023

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# HYFFORDDIANT: Cynllun Llysgennad Gwynedd – modiwl UNESCO Safleoedd Treftadaeth y Byd

Mae Cynllun Llysgennad Gwynedd yn rhoi y cyfle i weithwyr sy'n dod i gysylltiad rheolaidd ag ymwelwyr i ddysgu am, a deall, treftadaeth, diwylliant ac amgylchedd Gwynedd, ac o ganlyniad gwella gwasanaeth a phrofiad y cwsmer. I gyd-fynd â Diwrnod Treftadaeth y Byd ar 18 Ebrill 2023 lansiwyd modiwlau newydd,

gan gynnwys un am Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO. Am fwy o wybodaeth, ac i ddod yn Llysgennad Gwynedd, ewch i:

https://www.ambassador.wales/cy/ambassador-courses/gwynedd-ambassador-course/

# CYLLID: Cronfa Gwasanaethau Cymunedol 'Pub is the Hub'

Mae grantiau hyd at £3,000 ar gael o Gronfa Gwasanaethau Cymunedol Pub is the Hub i alluogi perchnogion tafarndai gwledig, trwyddedigion a chymunedau lleol i gydweithio i helpu i gefnogi anghenion cymunedau lleol drwy ddefnyddio tafarndai i gynnig gwasanaeth newydd neu i gynnig gwasanaeth sydd eisoes wedi'i golli. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://www.pubisthehub.org.uk/community-services-fund/

# DIGWYDDIAD: Gweithdy LinkedIn i fusnesau M-SParc #ArYLon Bangor HEDDIW!

Mae defnyddio LinkedIn i gwrdd â chysylltiadau newydd ac ail-ymgysylltu â rhai presennol yn dod yn fwy poblogaidd nag erioed. Yn y gweithdy yma, i'w gynnal yn M-SParc #ArYLôn Bangor 204 Stryd Fawr Bangor LL57 1NY heddiw, (18 Ebrill 2023 4:00pm-6:00pm), bydd cyfle i fusnesau ddysgu sut i wneud i LinkedIn weithio iddyn nhw. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/41cNRLn

# CYMORTH: Business Companion – esbonio deddfau masnachu

Mae Business Companion yn darparu gwybodaeth i fusnesau ac unigolion sydd angen gwybod mwy am safonau masnach a deddfwriaeth diogelu defnyddwyr. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.businesscompanion.info/

## AMAETHYDDIAETH: Ffliw Adar – Gorchymyn Cadw dan Do i’w godi ar 18 Ebrill

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd y mesurau cadw dofednod ac adar caeth dan do i’w codi heddiw (18 Ebrill 2023), ond bydd y gofynion bioddiogelwch gwell a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr fel rhan o’r Parth Atal Ffliw Adar (AIPZ) yn parhau. Mae hyn yn cynnwys rhestr wirio hunan-asesu bioddiogelwch gorfodol, i’w wneud gan bob ceidwad dofednod ac adar caeth, sydd ar gael ar:

https://www.llyw.cymru/rhestr-wirio-hunan-asesu-gorfodol

I ddarllen datganiad Llywodraeth Cymru, ewch i:

https://www.llyw.cymru/ffliw-adar-gorchymyn-cadw-dan-do-iw-godi-ar-18-ebrill

## HYFFORDDIANT: Lantra – hyfforddiant o ansawdd da i staff

Mae tîm Lantra yng Nghymru yn gweithio i helpu busnesau yn y diwydiant tir ac amgylcheddol i gael gafael ar yr hyfforddiant, y cymwysterau, y sgiliau a’r wybodaeth y mae arnynt eu hangen. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.wales.lantra.co.uk/cy

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i’w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru